



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Prestwood - 17**

**Caernarfon**

**Dyddiad Cyhoeddi**

**13 Mai 2019**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## **Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Y darparwr gwasanaeth ar gyfer 17 Ffordd Garnedd yw Prestwood Care Homes Ltd. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal i ddau oedolyn iau(rhwng 18 a 64 oed) sydd ag anableddau dysgu a/neu anghenion iechyd meddwl (gweithredol). Mae'r cartref wedi'i leoli ym Marina y Felinheli. Mae gan y gwasanaeth unigolyn cyfrifol dynodedig, ac mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## **Crynodeb o'n canfyddiadau**

### **1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Maent yn cael eu hannog i fod yn annibynnol ac mae'r staff yn deall eu dewisiadau unigol ac yn eu parchu. Mae'r staff yn trin y bobl â pharch, yn eu cynnwys mewn sgysiau ac yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl, ac mae eu cynlluniau cymorth unigol yn cynnwys eu hanghenion gofal a chymorth. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da, ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli. Mae'r staff yn cael eu fetio, yn cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen i adroddiad ar ansawdd y gofal gael ei gwblhau.

### **2. Gwelliannau**

Mae'r gwasanaeth wedi elwa ar nifer o welliannau mewn perthynas â'r amgylchedd ac agweddau ar yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth. Trafodir y rhain yn yr adroddiad hwn.

### **3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein gofynion a'n hargymhellion er mwyn gwella'r gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

Mae angen gwneud gwelliant mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 yn llawn:

- Ansawdd y Gofal.

Gwnaed yr argymhellion canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth ymhellach:

- Adolygu'r cynlluniau cymorth unigol a'r asesiadau risg.
- Dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu.
- Cofnodi tymereddau'r bwyd.
- Goleuadau argyfwng.
- Sicrhau bod y staff yn cwblhau modiwlau hyfforddi e-ddysgu.
- Goruchwylio ac arfarnu'r staff.
- Monitro'r lefelau staffio.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu hannog i gynnal eu hannibyniaeth, mynegi eu dewisiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Mae'r staff yn trin y bobl â pharch ac yn deall eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r bobl yn gallu mynegi eu barn a'u pryderon. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

## Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Dywedodd pob unigolyn y cawsom sgwrs ag ef ei fod yn hapus â nifer y gweithgareddau yr oedd yn cymryd rhan ynddynt, a'u math. Dywedodd pob un ohonynt fod y staff yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol o'u dewis. Dywedodd un unigolyn wrthym nad oedd bob amser am fynd allan a'i fod *"sometimes change my mind on the day"*. Dywedodd fod y staff yn gwrando arno ac yn parchu ei ddewis. Yn ystod ein hymweliadau gwelsom y staff yn annog y bobl ac yn rhoi dewis iddynt o ran yr hyn yr oeddent am ei wneud y diwrnod hwnnw. Roedd y cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, naill ai'n annibynnol neu, os oeddent yn dymuno, fel grŵp. Dywedodd un unigolyn nad oedd angen cymorth arno gan y staff bob amser, a'i fod yn mwynhau mynd allan ar ei ben ei hun i gwrdd â ffrindiau. Dywedodd wrthym fod hyn yn bwysig iddo a'i fod yn codi ei hyder. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y bobl i gwblhau gweithgareddau sgiliau byw beunyddiol annibynnol, er enghraifft paratoi prydau iach, tacluso eu hystafell a chynnal eu hylendid personol, ac yn eu helpu i wneud hynny. Cadarnhaodd un unigolyn a oedd yn byw yn y cartref fod y staff yn ei annog i fod yn annibynnol, a disgrifiodd y ffordd yr oedd yn cael ei annog i *"make my own food and do my own shopping"*. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fod yn iach ac yn annibynnol, ac maent yn gallu bod mor egniol ag y maent yn dewis bod.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sy'n eu cynnwys mewn sgysiau ac yn deall eu hanghenion. Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom y staff yn cefnogi'r bobl ac yn ymgysylltu â nhw mewn modd cwrtais, caredig a chyfeillgar. Hefyd, gwelsom y staff yn defnyddio hiwmor drwy dynnu coes mewn ffordd briodol, a gwelsom y bobl yn chwerthin ac yn gwenu â nhw. Roedd y staff hefyd yn ystyriol ac yn holi'r bobl yn rheolaidd i weld p'un a oeddent yn hapus ac yn fodlon. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn deall anghenion gofal y bobl, a'u dewisiadau. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael, a bod y staff yn *"very good"* a *"great"*. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu trin â pharch ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu mynegi eu barn a'u safbwyntiau. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym y byddent yn siarad â'r staff neu'r rheolwr os oeddent yn anhapus ag agweddau ar eu gofal. Dywedodd un unigolyn wrthym *"I'm not worried about anything here"* a dywedodd nad oedd wedi gwneud cwyn ffurfiol. Dywedodd hefyd y byddai'n hapus i roi gwybod am unrhyw beth, a'i fod yn deall bod ganddo'r hawl i gael eiriolwr annibynnol neu i siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol os oedd yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd y staff eu bod yn ymwybodol o'r broses chwythu'r chwiban,

diogelu a chwyno, ac y byddent yn fwy na pharod i roi gwybod i'r rheolwr neu'r tîm uwch-reolwyr am unrhyw bryderon. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd wedi cael unrhyw gwynion ffurfiol gan y bobl a oedd yn byw yn y cartref. Dywedodd fod y bobl yn dweud wrtho os oeddent yn anhapus, a'i fod yn ceisio mynd i'r afael â'r materion cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau nad oeddent yn gwaethygu. Gwelsom bolisïau chwythu'r chwiban, diogelu a chwyno'r gwasanaeth, a oedd wedi cael eu hadolygu yn ddiweddar. Gwelsom hefyd fod y bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu mynegi eu barn drwy ddefnyddio dogfen hawdd ei darllen y gwasanaeth ar gyfer canmoliaeth, cwynion a sylwadau. Mae prosesau ar waith i alluogi'r bobl sy'n byw yn y cartref i fynegi eu pryderon, ac maent yn gallu defnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol.

Caiff hunaniaeth a diwylliant unigol y bobl eu parchu. Mae chwech o blith y 15 aelod o staff a gyflogir gan y gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu siarad Cymraeg. Gellir gofyn i unrhyw un o'r staff weithio yn y cartref er mwyn helpu i lenwi sifftiau. Dros ddeuddydd yr arolygiad, gwelsom bedwar aelod o'r staff yn gweithio yn y cartref, yr oedd un ohonynt yn siarad Cymraeg. Nid oedd yr un o'r bobl a oedd yn byw yn y cartref yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, ond dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn deall ac yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd wrthym hefyd fod yn well ganddo siarad Saesneg, a bod hyn yn cael ei barchu. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n ystyried unrhyw gais am aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi'r bobl sy'n byw yn y cartref, pe bai cais o'r fath yn cael ei wneud. Roedd y rota staff yn dangos nad oedd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael yn y cartref bob dydd, a chydabu'r rheolwr hyn. Hefyd, dywedodd y rheolwr wrthym fod datganiad o ddiben y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac y byddai modd cyfieithu dogfennau fel cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y bobl yn ôl y galw. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyson yn Gymraeg.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal a chymorth yn unol â'u dewisiadau a'u dymuniadau personol. Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol allanol ar gael iddynt, yn ogystal â gwasanaethau mewnol arbenigol y cwmni. Mae cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg wedi cael eu cwblhau, ac mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau cymorth unigol a'r asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n gyson ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae eu dewisiadau a'u dymuniadau'n cael eu parchu. Gwelsom ffeil gofal un o'r bobl, a oedd yn cynnwys gwybodaeth cyn derbyn, gan gynnwys manylion hanesyddol am ei brofiadau bywyd. Roedd y ffeil gofal hefyd yn cynnwys cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg mewn perthynas ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Roedd y cynllun cymorth unigol yn canolbwyntio ar ddewisiadau personol yr unigolyn ac yn ei annog i fod yn annibynnol. Dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod yn "*involved in my care plan*" ac yn "*very happy*" â chynnwys y cynllun. Dywedodd yr unigolyn hefyd ei fod yn rhoi disgrifiad cywir o'r gofal a'r cymorth yr oedd yn eu cael a bod y staff yn parchu ei ddewisiadau. Wrth i ni arsylwi, gwelsom y staff yn rhoi cymorth yn unol â chynnwys y ffeiliau gofal a'r wybodaeth a rannodd yr unigolyn. Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth yn y ffordd y maent yn dymuno eu cael.

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau cymorth unigol a'u hasesiadau risg. Roedd ffeiliau gofal y bobl yn dangos bod cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg wedi cael eu cwblhau. Ar y cyfan, roedd cynlluniau cymorth unigol y bobl wedi cael eu hadolygu bob pedwar mis a phan oedd unrhyw newidiadau sylweddol wedi dod i'r amlwg. Gwelsom fod un unigolyn wedi llofnodi ei gynlluniau pan gawsant eu llunio gyntaf, a chadarnhaodd yr unigolyn hyn yn ystod ein sgwrs ag ef. Er gwaethaf hyn, ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos sut na phryd yr oedd wedi cael ei gynnwys yn y broses adolygu wedi hynny. Gwelsom hefyd nad oedd cynlluniau cymorth unigol nac asesiadau risg yr unigolyn wedi cael eu hadolygu'n gyson. Roedd y dyddiadau adolygu dogfennau amrywiol yn ei gwneud hi'n anodd cadarnhau a oedd y wybodaeth a oedd wedi'i chofnodi yn gyfredol ac yn dal i fod yn berthnasol i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn. Roedd un ffactor risg posibl a sylweddol wedi cael ei gofnodi mewn cynllun cymorth unigol, ond nid oedd wedi cael ei gynnwys mewn asesiad risg. Roedd hyn yn awgrymu nad oedd y staff yn cael gwybodaeth gyson. Cawsom drafodaeth am hyn â'r rheolwr, a gadarnhaodd ei fod wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn cwblhau'r adroddiad hwn. Dywedodd y rheolwr wrthym hefyd ei fod yn bwriadu adolygu cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y ddau unigolyn, ac y byddai'n eu diweddarau yn ôl yr angen. Gwelsom fod angen gwella'r ffordd yr oedd gwybodaeth mewn cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'i dyddio, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyson, gyfredol a manwl. Mae anghenion gofal a chymorth y bobl, a'r risgiau y maent yn eu hwynebu, yn cael eu nodi. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach i'r ffordd y caiff gwybodaeth o'r fath ei chofnodi er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu defnyddio gwasanaethau proffesiynol. Gwelsom dystiolaeth ysgrifenedig yn ffeiliau gofal y bobl eu bod yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amrywiol. Gwelsom hefyd eu bod yn gallu cael cymorth gan Seicolegydd a Therapydd Cymorth Ymddygiadol y cwmni yn ôl yr angen. Roedd ymweliadau a chyfarfodydd adolygu a gynhaliwyd â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael eu cofnodi, ac roedd asesiadau ar gael er mwyn i'r unigolion a'r staff eu darllen unrhyw bryd. Dywedodd un unigolyn sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod yn cael cymorth gan y staff mewn cyfarfodydd ac adolygiadau, a'i fod yn ddiolchgar am hyn. Dywedodd y staff eu bod yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd yn ddyddiol a phryd bynnag y byddai anghenion gofal unigolyn yn newid, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn ystod ein hymweliadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwasanaethau ac wedi dysgu llawer drwy fynychu cyfarfodydd ac adolygiadau. Deallir a rhagwelir anghenion iechyd unigol y bobl am eu bod yn gallu cael cyngor, gofal a chymorth gan wasanaethau proffesiynol.

### 3. Yr Amgylchedd

#### Crynodeb

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân sydd mewn cyflwr da ac sydd wedi cael ei adnewyddu. Mae eu hystafelloedd yn cynnwys eitemau personol ac maent yn cael eu cynnwys wrth ddewis décor eu hystafelloedd. Mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch perthnasol wedi cael eu cwblhau yn unol â'r amserlenni gofynnol. Os yw'n berthnasol, mae angen i'r gwasanaeth ddilyn unrhyw argymhellion a wnaed gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

#### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a diogel sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Roedd yr adeilad yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod wrth i ni gyrraedd y cartref, a gofynnodd y staff am gael gweld ein manylion adnabod. Gofynnwyd i ni hefyd lofnodi'r llyfr ymwelwyr yn unol â'r gweithdrefnau diogelwch tân cyn crwydro'r adeilad. Gwelsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus, ac yn cynnwys digon o le i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn fflat llawr gwaelod ac mae'n cynnwys dwy ystafell wely, ystafell ymolchi a lolfa/cegin/ardal fwyta gymunedol. Cawsom ein gwahodd i weld ystafelloedd gwely'r ddau unigolyn, a gwelsom eu bod yn cynnwys eitemau personol fel memorabilia a lluniau. Dywedodd y ddau unigolyn sy'n byw yn y cartref eu bod yn hapus â maint a décor eu hystafelloedd. Dywedodd un unigolyn wrthym fod ei ystafell wedi cael ei hailaddurno yn ddiweddar, a dywedodd *"the whole place got refurbished"*. Dywedodd yr unigolyn ei fod wedi cael ei gynnwys yn llawn wrth ddewis lliw'r paent ar gyfer ei ystafell a bod y staff wedi parchu ei ddewis.

Roedd y lolfa/cegin/ardal fwyta gymunedol yn lân ac yn daclus. Roedd drws patio yn galluogi'r bobl i fynd allan i'r patio awyr agored. Gwelsom y ddau unigolyn sy'n byw yn y cartref yn defnyddio'r ardal yn ystod ein hymweliadau. Gwelsom fod tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn cael eu cofnodi, ond gwelsom dri achos mewn cyfnod o ddeufis pan nad oedd tymheredd y bwyd wedi cael ei gofnodi. Ystyriwyd bod hyn yn faes i'w wella. Gwelsom fod yr ystafell ymolchi yn lân ac mewn cyflwr da, ond nid oedd yn cynnwys ffenestr at ddibenion awyru. Gwelsom fod gwyntyll yn cael ei defnyddio i helpu i awyru'r ystafell, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn glanhau'r ardal yn rheolaidd er mwyn atal cyddwysiad rhag cronni. Gwelsom y staff yn glanhau'r ardaloedd cymunedol a'r ystafell ymolchi'n rheolaidd yn ystod ein hymweliadau. Dywedodd y rheolwr, y staff ac un unigolyn sy'n byw yn y cartref wrthym am y newidiadau cadarnhaol a wnaed i'r tu mewn i'r cartref, a dywedodd y staff fod unrhyw faterion cynnal a chadw yn cael eu cyfeirio at adran cynnal a chadw'r gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â nhw. Er gwaethaf hyn, ni welsom fod cynllun cynnal a chadw'n cael ei ddefnyddio i ddogfennu'n ffurfiol y gwaith yr oedd angen ei gwblhau na'r newidiadau cadarnhaol a wnaed yn yr amgylchedd. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd gweld pryd yr oedd y gwaith wedi cael ei nodi, ei gyfeirio a'i gwblhau. Cawsom drafodaeth am hyn â'r rheolwr, a dywedwyd wrthym cyn cwblhau'r adroddiad hwn fod llyfr cynnal a chadw bellach yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom hefyd sampl o gofnodion iechyd a diogelwch mewn perthynas â phrofion dyfeisiau trydanol, y prawf trydanol bob pum mlynedd, diogelwch tân, gan gynnwys cynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEP), larymau, diffoddyddion tân ac ymarferion tân. Gwelsom eu bod wedi cael eu cwblhau o fewn yr



amserlenni gofynnol a dywedodd y ddau unigolyn sy'n byw yn y cartref wrthym fod y staff wedi trafod diogelwch tân a'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad gyda nhw. Roedd y ddau unigolyn yn gallu dweud wrthym am y camau y byddai angen iddynt eu cymryd pe bai tân. Er gwaethaf hyn, gwelsom nad oedd unrhyw oleuadau argyfwng yn y cartref. Tynnodd y Cynllun Adolygu Cydymffurfiaeth, Adolygu Trefniadau Monitro a Chynllun Gwella'r Gwasanaeth, a gwblhawyd ar 24 Ebrill 2018, sylw at y ffaith nad oedd unrhyw oleuadau argyfwng, gan nodi *'this may need to be explored further'*. Ni welsom fod hyn wedi cael ei unioni a chawsom drafodaeth am y mater â'r rheolwr, a gysylltodd â'r adran cynnal a chadw yn briodol er mwyn cael rhagor o gyngor. Hefyd, cysylltodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w hysbysu am y sefyllfa ac i ofyn am ragor o gyngor arbenigol. Ystyriwyd bod ceisio eglurhad ynghylch goleuadau argyfwng yn faes i'w wella. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl a sicrhau ymdeimlad o lesiant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae gwiriadau cyn cyflogi yn cael eu cwblhau ac mae'r staff yn cael eu sefydlu'n ffurfiol. Mae'r staff yn cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n eu helpu i gyflawni eu rolau, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â darparu lefel gyson o oruchwyliaeth, monitro'r lefelau staffio, lleoli staff a chwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn cael eu fetio ac yn cwblhau cyfnod sefydlu ffurfiol. Cawsom olwg ar ffeiliau'r staff, yn ogystal â'r prosesau cyflogi a sefydlu staff. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod prif ffeiliau'r staff yn cael eu storio'n ddiogel gydag adran Adnoddau Dynol y cwmni. Cawsom olwg ar y wybodaeth hon ar ddiwrnod yr arolygiad a gwelsom fod ffeiliau'r staff yn cynnwys ffurflen gais, hanes cyflogaeth a geirdaon gan gyflogwyr blaenorol. Roedd dyddiadau cyflogaeth flaenorol y staff, ynghyd â'u rhesymau dros adael, hefyd wedi'u cofnodi, ac roedd gan y cwmni ei adran recriwtio ei hun a oedd yn trafod darpar aelodau newydd o staff â rheolwr y cartref. Gwelsom hefyd fod gwiriadau manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau, a'u bod yn gyfredol. Roedd rhaglen sefydlu ffurfiol ar waith ar gyfer staff newydd a oedd yn seiliedig ar ganllawiau Gofal Cymdeithasol Cymru ac roedd disgwyl iddynt gwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol os nad oeddent yn meddu ar gymhwyster o'r fath yn barod. Roedd staff newydd hefyd yn cwblhau sifftiau cysgodi â staff mwy profiadol ac yn darllen polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd cyfyngiad amser ar hyn. Dywedodd dau aelod o'r staff wrthym eu bod wedi mwynhau eu cyfnod sefydlu ac yn teimlo ei fod yn *"informative"* ac yn *"useful"*. Caiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau ac mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol ac sy'n ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r staff yn cael gwahanol gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w rôl. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd a bod mwy na hanner y tîm naill wedi cwblhau cymwysterau gofal ar lefel 2 neu uwch, neu'n gweithio tuag atynt. Dywedodd y staff wrthym fod yr hyfforddiant yn cynnwys e-ddysgu (ar-lein) a sesiynau ymarferol gyda darparwyr allanol. Gwelsom hefyd fod y staff yn gallu defnyddio canolfan hyfforddi fewnol y cwmni ac yn gallu manteisio ar hyfforddiant pwrpasol a oedd yn benodol i anghenion gofal a chymorth y bobl. Roedd y rheolwr yn goruchwyllo'r hyfforddiant a gwblhawyd gan y staff, a gwelsom fod y staff wedi cwblhau amryw bynciau gorfolod. Gwelsom hefyd fod y rheolwr wedi rhagarchebu sesiynau hyfforddi ar gyfer y staff â darparwyr allanol. Dywedodd pob aelod o'r staff y cawsom sgwrs ag ef ei fod yn cael hyfforddiant rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w rôl. Roedd ymatebion y staff i ansawdd yr hyfforddiant yn amrywio, ac yn cynnwys *"okay"*, *"generally good"* a *"poor"*. Roedd cofnod hyfforddiant y staff yn dangos bod un aelod o'r staff wedi cwblhau 12 modiwl mewn un diwrnod a bod aelod arall o'r staff wedi cwblhau naw. Gyda'i gilydd, roedd wyth aelod arall o'r staff wedi cwblhau rhwng tri ac wyth modiwl mewn diwrnod. Cawsom drafodaeth am hyn â'r tîm rheoli a'r person cofrestredig, a ddywedodd y byddent yn adolygu'r sefyllfa. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl. Gwelsom fod angen ystyried ac adolygu pa mor ymarferol ydoedd i staff gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu mewn

un diwrnod, a nodwyd hyn gennym fel maes i'w wella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi gan staff sy'n cael hyfforddiant amrywiol a rheolaidd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac mae cyswllt rheolaidd rhyngddynt â'r rheolwr. Clywsom bob aelod o'r staff yn canmol y cymorth yr oeddent yn ei gael gan y rheolwr ac yn siarad yn gadarnhaol amdano. Dywedodd y staff fod y rheolwr ar gael i drafod unrhyw waith neu faterion personol. Gwelsom y rheolwr yn rhyngweithio â'r staff mewn modd cyfeillgar a chadarnhaol, a gwelsom y staff yn trin y rheolwr â pharch. Dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw fod y rheolwr yn *"approachable"* a *"lovely"*. Hefyd, dywedodd y staff fod y rheolwr yn *"listens to me"*, *"resolves issues"* ac *"eisiau'r gorau i'r bobl"*. Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal, a'u bod yn cael cyfleoedd i drafod materion yn ymwneud â gwaith. Roedd y cofnodion goruchwyllo ac arfarnu staff yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwyllo'n ffurfiol ac yn anffurfiol, ond nid oedd hyn bob amser yn digwydd yn chwarterol. Gwelsom hefyd nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei arfarniad blynyddol. Ni welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y staff, a chafodd y materion hyn eu hystyried yn feysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael budd o wasanaeth lle mae'r staff yn cael eu cefnogi'n gyson, ond mae angen gwneud gwelliannau er mwyn darparu lefel gyson o oruchwyliaeth staff ffurfiol ac arfarniad blynyddol.

Mae angen monitro'r lefelau staffio'n barhaus er mwyn sicrhau bod nifer ddigonol o staff ar ddyletsydd. Cawsom olwg ar y rota staff a gwelsom fod y lefelau staffio ar ddiwrnodau'r arolygiad yn gyson â'r wybodaeth a roddwyd ac â chytundebau'r gwasanaethau comisiynu. Er gwaethaf hyn, dywedodd y staff wrthym eu bod yn gweithio oriau ychwanegol yn rheolaidd, ar ben eu horiau dan gontract, er mwyn sicrhau bod digon o staff ar bob sifft. Dywedodd y staff mai eu dewis nhw oedd hyn, a'u bod yn ei wneud am eu bod yn mwynhau eu gwaith ac am sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cefnogi. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod staff 'banc' yn aml yn cael eu defnyddio i lenwi sifftiau. Roedd y rota staff yn dangos bod un aelod o'r staff yn aros dros nos yn y cartref bob nos. Dywedodd y staff wrthym fod y lefelau staffio'n ddigonol i ddiwallu anghenion cymorth y bobl sy'n byw yn y cartref. Er gwaethaf hyn, dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn gyfrifol am ddarparu cymorth i unigolyn arall sy'n byw yn union uwchben y cartref os yw'r unigolyn hwnnw'n galw arnynt. Dywedodd y staff nad oedd hyn yn digwydd yn aml. Fodd bynnag, pan oedd yn digwydd, roedd yn golygu bod yn rhaid iddynt adael yr eiddo am gyfnod byr er mwyn asesu'r sefyllfa a chadarnhau bod yr unigolyn yn iawn. Roedd hyn yn golygu nad oedd aelod o staff yn y cartref am gyfnod byr o amser. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym eu bod wedi cytuno ar y trefniant staffio dros nos cyfredol â'r gwasanaethau comisiynu. Dywedodd y staff a'r rheolwr wrthym hefyd fod gweithdrefnau ar waith i gysylltu â'r unigolyn ar alwad yn y gwasanaeth i ddarparu cymorth ar ffurf staff ychwanegol os oedd angen. Ni ddywedodd yr un aelod o'r staff fod hyn wedi cael effaith negyddol ar y gofal yr oedd y bobl yn ei gael, a chadarnhawyd hyn drwy'r trafodaethau a gawsom â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Wrth drafod â'r rheolwr a'r rheolwr ardal daeth i'r amlwg eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa, a gwelsom dystiolaeth eu bod wrthi'n ceisio recriwtio aelod newydd o staff i swydd lawn-amser. Gwelsom hefyd fod aelodau newydd o staff wedi cael eu penodi, a gwelsom gyfweiliad yn cael ei gynnal yn ystod ein hymweliad. Ni welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl nac ar y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos. Mae angen i'r person cofrestredig barhau i sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a

bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

Nid oes gan y gwasanaeth adroddiad cyfredol ar ansawdd y gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi diweddarau ei ddatganiad o ddiben yn ddiweddar, ac wedi cynnwys manylion cyswllt AGC. Gwelsom hefyd fod gan y gwasanaeth brosesau monitro ansawdd ar waith. Ni allai'r rheolwr ddarparu adroddiad i ni a gwblhawyd gan y person cofrestredig. Dywedodd wrthym nad oedd yr unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r safle, a chadarnhawyd hyn gan y staff hefyd. Dywedodd tri aelod o'r staff y cawsom sgwrs â nhw nad oeddent yn gwybod pwy oedd y person cofrestredig. Er gwaethaf hyn, gwelsom fod ymweliadau monitro ansawdd wedi cael eu cwblhau gan eu bod wedi cael eu dirprwyo i aelodau eraill o'r cwmni. Gwelsom fod y rheolwr ardal yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, a dywedodd wrthym ei fod yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r person cofrestredig ar lafar ac yn ysgrifenedig. Gwelsom hefyd fod yr ymweliadau a'r adroddiadau mewn perthynas ag Adolygu Cydymffurfiaeth, Adolygu Trefniadau Monitro a Chynllun Gwella'r Gwasanaeth yn cael eu cwblhau gan reolwr cydymffurfiaeth y cwmni. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y rheolwr ardal, gan ddweud ei fod yn ymweld â'r safle'n rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr ac aelodau o'r tîm uwch-reolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r gwasanaeth mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, hyfforddiant staff ac amgylchedd y cartref. Yn ystod yr arolygiad, cawsom ddogfen a oedd yn dyddio'n ôl i 2016, a oedd yn dangos bod ymatebion i holiaduron wedi'u cael gan bobl a oedd yn byw yn y cartref. Dywedodd y rheolwr a'r rheolwr ardal wrthym fod holiaduron pellach wedi cael eu dosbarthu a'u cwblhau ers hynny, ond nad oedd y wybodaeth wedi cael ei chasglu na'i chrynhoi mewn adroddiad. Hefyd, dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref a'r staff wrthym fod y rheolwr wedi gofyn iddynt yn ddiweddar am eu barn am y gwasanaeth. Er gwaethaf hyn, a'r ffaith bod prosesau monitro ansawdd ar waith, nid oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio. Roedd hyn yn golygu na allai'r gwasanaeth ddangos sut yr oedd yn cyflawni, yn adolygu nac yn myfyrio ar nodau a chanlyniadau cadarnhaol i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd y ffaith nad oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei lunio hefyd yn golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth o'r cynnydd cadarnhaol a wnaed gan y tîm rheoli. Hefyd, ni welsom fod barn cynrychiolwyr y bobl na'r gwasanaethau comisiynu wedi cael ei chasglu fel rhan o'r broses o adolygu ansawdd y gofal. Gwelsom nad oedd y person cofrestredig yn bodloni'r gofynion rheoliadol yn llawn mewn perthynas â chwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal. Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn cyn gynted â phosibl. Mae cais wedi'i wneud am gopi o'r adroddiad pan fydd wedi'i gwblhau, a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus hyd nes y bodlonir y gofynion. Nid yw'r gwasanaeth wedi dangos yn llawn ei fod yn gosod safonau uchel mewn perthynas â chyflwyno dystiolaeth ffurfiol o welliant parhaus na dangos sut mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gwella'r gwasanaeth mewn adroddiad ar ansawdd y gofal.

## **5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn**

### **5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol**

Dim.

### **5.2 Argymhellion ar gyfer gwella**

Rydym wedi cyngori'r person cofrestredig yn gryf fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r canlynol er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn:

- Rheoliad 25 (1) (a), (2) a (3) mewn perthynas ag adolygu ansawdd y gofal.

Ni chyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio ffurfiol ar yr achlysur hwn gan na welsom fod y mater wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael. Mae AGC yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r mater.

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol pellach i bobl:

- Rydym yn argymhell yn gryf y dylid adolygu cynlluniau cymorth unigol ac asesiadau risg y bobl yn rheolaidd a sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gyson, gyfredol a manwl sy'n cyfateb i'r gofal a'r cymorth a roddir ar y pryd.
- Dylai ffeiliau gofal y bobl ddogfennu'n ffurfiol eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio eu gofal drwy ddangos yn glir sut a phryd y maent yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu.
- Cofnodi tymereddau'r bwyd yn gyson bob dydd.
- Adolygu a chadarnhau'r sefyllfa mewn perthynas â goleuadau argyfwng a gwneud unrhyw newidiadau a argymhellwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Adolygu pa mor ymarferol ydyw i staff gwblhau nifer o fodiwlau hyfforddi e-ddysgu ar yr un diwrnod, ynghyd â manteision hynny.
- Dylai pob aelod o'r staff gael ei oruchwylio'n ffurfiol bob chwarter, a chwblhau arfarniad blynyddol sy'n rhoi adborth iddo ar ei berfformiad ac yn nodi meysydd lle mae angen cyfleoedd hyfforddi a datblygu, er mwyn ei helpu i gyflawni ei rôl.
- Rydym yn argymhell yn gryf y dylid parhau i fonitro'r lefelau staffio'n agos er mwyn sicrhau bod niferoedd digonol o staff ar bob sifft, a bod y staff yn cael eu lleoli'n briodol er mwyn sicrhau bod y bobl sy'n byw yn y cartref yn cael lefel gyson o oruchwyliaeth a chymorth.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd arolygiad arferol dirybudd gennym ni, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn y cartref ar 26 Chwefror 2019 rhwng 09:20am a 18:30pm ac ar 27 Chwefror 2019 rhwng 08:30am a 19:25pm. Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Cawsom sgwrs â'r ddau unigolyn sy'n byw yn y cartref, y rheolwr, y rheolwr ardal a phedwar aelod o'r staff gofal.
- Gwelsom y ddwy ystafell wely, yr ystafell ymolchi a'r lolfa/cegin/ardal fwyta.
- Cawsom olwg ar amrywiaeth eang o gofnodion, gan ganolbwyntio ar gofnodion gofal un unigolyn, ffeiliau tri aelod o'r staff, dogfennau sicrhau ansawdd, cofnodion un cyfarfod staff, cofnodion meddyginiaeth, hyfforddiant staff, goruchwyliaeth staff, y datganiad o ddiben, y polisïau cwyno, chwythu'r chwiban a diogelu, a detholiad o gofnodion iechyd a diogelwch yn ymwneud â diogelwch tân ac eitemau trydanol.
- Cawsom sgwrs dros y ffôn â Swyddog Cydymffurfiaeth Diogelwch Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 5 Mawrth 2019.
- Trafodwyd yr argymhellion â'r rheolwr ar ddiwrnodau'r arolygiad.
- Cawsom sgwrs dros y ffôn â'r rheolwr ardal ar 07 Mawrth 2019.
- Cawsom gyfarfod â'r person cofrestredig ar 11 Mawrth 2019 yn Swyddfa Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghyffordd Llandudno.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

|   |   |
|---|---|
| <b>Y math o ofal a ddarperir</b>  | <b>Cartref Gofal i Oedolion - Iau</b>   |
| <b>Person Cofrestredig</b>  | <b>Prestwood Residential Homes Ltd</b>  |
| <b>Rheolwr</b>  | <b>Mae'r unigolyn a benodwyd i reoli'r gwasanaeth wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru</b>  |
| <b>Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd</b>   | <b>2</b>  |
| <b>Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru</b>                        | <b>04 Gorffennaf 2018</b>   |
| <b>Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn</b>  | <b>26 Chwefror 2019 a 27 Chwefror 2019</b>  |
| <b>Iaith weithredol y gwasanaeth</b>  | <b>Saesneg</b>  |
| <b>A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?</b> | <b>Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog</b> |
| <b>Gwybodaeth Ychwanegol:</b>   |   |